CADEIRLAN LLANDAF
LLANDAFF CATHEDRAL

Gwasanaeth Cysegru'r Seithfed Senedd

Dydd Mawrth 13 Hydref 2026
7.00pm

Trefn y Gwasanaeth

A Service of Dedication for the Seventh Senedd

Tuesday 13 October 2026
7.00pm

Order of Service

Cytûn

Eglwysi Ynghyd yng Nghymru

Gwasanaeth Cysegru'r Seithfed Senedd

13 Hydref 2026

Cadeirlan Sant Pedr a Sant Paul, ynghyd â Saint Dyfrig, Teilo, ac Euddogwy, Llandaf

Cytûn

Churches Together in Wales

A Service of Dedication for the Seventh Senedd

13 October 2026

The Cathedral of SS Peter and Paul, with SS Dyfrig, Teilo, and Euddogwy, Llandaff

Mae dolen glyw yn gwasanaethu'r Eglwys Gadeiriol, y gellir cael mynediad iddi drwy newid eich cymorth clyw i'r gosodiad wedi'i farcio â ***T****.*

Gwnewch yn siŵr bod ffonau a dyfeisiau electronig eraill wedi'u diffodd neu wedi'u distewi.

Gofynnwn i chi beidio â chymryd lluniau, fideo na recordio sain yn ystod y gwasanaeth. Ymunwch â chanu'r emynau a'r geiriau mewn **print trwm**.

Arweinir y gwasanaeth gan y Tra Pharchedig Dr. Jason Bray, Deon Llandaf.

Cenir y gwasanaeth gan Gôr Eglwys Gadeiriol Llandaf, dan gyfarwyddyd Stephen Moore, Cyfarwyddwr Cerdd.

Aaron Shilson, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cerdd, sy'n canu'r Organ.

CERDDORIAETH CYN Y GWASANAETH

Côr Merched Plastaf yn canu:

Gwenllian	Eric Jones & Peter Hughes Griffiths
Ar Hyd y Nos	Tradd. Trefniant Robat Arwyn & Ceiriog, Mererid Hopwood
Berwyn	Caradog Roberts. Trefniant Jeffrey Howard & W. Rhys Nicholas
Si Hei Lwli, 'Mabi	Tradd. Trefniant Eric Jones
O Gymru	Rhys Jones. Trefniant Jeffrey Howard, Leslie Harries & Aled Lloyd Davies

Mae Mared Emyr Pugh-Evans, Telynroes Swyddogol Ei Fawrhydi Y Brenin, yn chwarae;

Hiraeth	Grace Williams (1906-77)
St Denio *o Swît i Delyn, Op. 83*	Benjamin Britten (1913-76)
Dafydd y Garreg Wen	John Thomas (1826-1913)

Dr Cynan Llwyd yn croesawu'r gynulleidfa ar ran Cytûn: Eglwysi Ynghyd yng Nghymru.

Mae'r Cyfarwyddwr Cerdd Cynorthwyol yn chwarae:

Rhosymedre	Ralph Vaughan Williams (1872-1958)

The Cathedral is served by a hearing loop, which can be accessed by switching your hearing aid to the setting marked T.

Please ensure that phones and other electronic devices are switched off or to silent.

We ask that you do not take photographs, video or sound recording during the service. Please join in the singing of the hymns and the words in **bold type**.

The service is led by The Very Reverend Dr. Jason Bray, Dean of Llandaff

The service is sung by the Choir of Llandaff Cathedral, directed by Stephen Moore, Director of Music.

The Organ is played by Aaron Shilson, Assistant Director of Music.

MUSIC BEFORE THE SERVICE

Côr Merched Plastaf sing:

Gwenllian	Eric Jones & Peter Hughes Griffiths
Ar Hyd y Nos	Tradd. Arranged Robat Arwyn & Ceiriog, Meterid Hopwood
Berwyn	Caradog Roberts. Arranged Jeffrey Howard & W. Rhys Nicholas
Si Hei Lwli, 'Mabi	Tradd. Arranged Eric Jones
O Gymru	Rhys Jones. Arranged Jeffrey Howard, Leslie Harries & Aled Lloyd Davies

Mared Emyr Pugh-Evans, Official Harpist to His Majesty The King, plays:

Hiraeth	Grace Williams (1906-77)
St Denio *from Suite for Harp, Op. 83*	Benjamin Britten (1913-76)
Dafydd y Garreg Wen	John Thomas (1826-1913)

Dr Cynan Llwyd welcomes the congregation on behalf of Cytûn: Churches Together in Wales.

The Assistant Director of Music plays:

Prelude of Rhosymedre	Ralph Vaughan Williams (1872-1958)

EMYN



1. Mawl fo i'r Arglwydd, sy'n Frenin gogoniant a mawredd:
clod i'r Goruchaf, a ddyry i'm henaid orfoledd:
    tyred â'th gân,
    salmau, telynau yn lân,
seinir ei fawl yn ddiddiwedd.

Pawb **2. Mawl fo i'r Arglwydd, Penllywydd rhyfeddol pedryfan:**
noddfa dragwyddol ei adain sydd drosot yn llydan:
    cadarn yw'r Iôr,
    ynddo i'th gynnal mae stôr,
amlwg i'th olwg yw'r cyfan.

Pawb **3. Mawl fo i'r Arglwydd, bendithia dy ran yn dragywydd:**
tywallt o'r nefoedd mae ffrydiau y cariad ni dderfydd:
    enaid, erglyw!
    gymaint yw gallu dy Dduw,
cariad hyd fyth a'th gyferfydd.

4. Mawl fo i'r Arglwydd, a'r cwbwl sydd ynof yn ennyn:
ef yw goleuni dy enaid bob dydd sy'n dy ddilyn:
holl lwythau'r byd,
    cenwch yn llafar ynghyd:
moler hyd oesoedd di derfyn!

Geiriau: Joachim Neander (1650-1680)
Cyfieithiad Cymraeg J. D. Vernon Lewis (1879-1970)

Cerddoriaeth: LOBE DEN HERREN
Cyfieithwyd gan Catherine Winkworth (1827-1878)
Alaw Almaenig o'r 17eg Ganrif
Wedi'i harmoneiddio ar gyfer Llyfr Corawl Lloegr (1863)

Please stand to sing the Processional Hymn.

HYMN



All 1. **Praise to the Lord, the almighty, the King of creation;**
O my soul, praise him, for He is thy health and salvation:
come ye who hear,
brothers and sisters draw near,
praise him in glad adoration.

2. Praise to the Lord, who o'er all things so wondrously reigneth,
shelters thee under his wings, yea, so gently sustaineth:
hast thou not seen
all that is needful hath been
granted in what he ordaineth?

3. Praise to the Lord, who doth prosper thy work, and defend thee;
surely his goodness and mercy doth daily attend thee;
ponder anew
all the almighty can do,
he who with love doth befriend thee.

All 4. **Praise to the Lord! O let all that is in me adore him!**
All that hath life and breath come now with praises before him!
Let the Amen
sound from his people again:
Gladly for ay we adore him.

Words: Joachim Neander (1650-1680)

Music: LOBE DEN HERREN
Translated by Catherine Winkworth (1827-1878)
German 17th Century Melody
Harmonised for The Chorale Book for England (1863)

Daliwch ati i sefyll. Cynigir geiriau croeso gan y Tra Pharchedig Dr Jason Bray, Deon Llandaf.

Y WEDDI DDEISYFOL

Dduw cyfiawnder a heddwch,
Duw'r dyffrynnoedd a'r mynyddoedd,
ein dinasoedd a'n cymunedau,
diolchwn i ti am bobl Cymru
ac am y fraint a'r cyfrifoldeb o wasanaethu'r lles cyffredin.

Wrth i'r Senedd hon ddechrau pennod newydd ym mywyd ein cenedl,
bendithia bawb sydd wedi'u hethol a'u penodi i wasanaethu yma.
Rho iddynt ddoethineb yn eu hystyriaethau,
uniondeb yn eu penderfyniadau,
dewrder mewn cyfnodau anodd,
a gras i wrando ar leisiau sy'n hawdd eu hanwybyddu.

Bydded iddynt geisio cyfiawnder heb ragfarn,
heddwch heb hunanfodlonrwydd,
ffyniant heb eithrio,
a chynnydd heb anghofio'r rhai mewn caledi.

Cynorthwyo ni oll i gofio bod awdurdod yn cael ei ymddiried er mwyn gwasanaeth,
a bod mesur ein bywyd cyffredin
i'w gael yn y ffordd rydym yn trin ein gilydd,
yn enwedig y tlotaf, y gwannaf a'r mwyaf bregus.

Bendithia'r Senedd hon,
bendithia bobl Cymru,
a gwna ni, yn ein holl amrywiaeth,
yn bobl sy'n dilyn gwirionedd, cyfiawnder a heddwch.

Trwy Grist ein Harglwydd.
Pawb **Amen.**

Please remain standing. Words of welcome are offered by the Very Reverend Dr Jason Bray, Dean of Llandaff.

THE BIDDING

God of justice and peace,
God of the valleys and mountains,
of our cities and our communities,
we give you thanks for the people of Wales
and for the privilege and responsibility of serving the common good.

As this Senedd begins a new chapter in the life of our nation,
bless all who have been elected and appointed to serve here.
Give them wisdom in their deliberations,
integrity in their decisions,
courage in difficult times,
and grace to listen to voices that are easily overlooked.

May they seek justice without partiality,
peace without complacency,
prosperity without exclusion,
and progress without forgetting those who struggle.

Help us all to remember that authority is entrusted for the sake of service,
and that the measure of our common life
is found in how we treat one another,
especially the poorest, the weakest and the most vulnerable.

Bless this Senedd,
bless the people of Wales,
and make us, in all our diversity,
a people who pursue truth, justice and peace.

Through Christ our Lord.

All **Amen.**

Y DARLLENIAD CYNTAF

Read by Huw Irranca-Davies AS, Llywydd y Senedd

Â pha beth y dof o flaen yr Arglwydd,
a phlygu gerbron y Duw uchel?
A ddof ger ei fron â phoethoffrymau,
neu â lloi blwydd?
A fydd yr Arglwydd yn fodlon ar filoedd o hyrddod
neu ar fyrddiwn o afonydd olew?
A rof fy nghyntafanedig am fy nghamwedd,
fy mhlant fy hun am fy mhechod?
Dywedodd wrthyt, feidrolyn, beth sydd dda,
a'r hyn a gais yr Arglwydd gennyt:
dim ond gwneud beth sy'n iawn, caru teyrngarwch,
ac ymostwng i rodio'n ostyngedig gyda'th Dduw.

Micha 6. 6-8

Dyma air yr Arglwydd.

Pawb **Diolch a fo i Dduw.**

Y SALM

Mae Côr yr Eglwys Gadeiriol yn canu'r Salm:

Bydded imi glywed yr hyn a lefara'r Arglwydd Dduw :
oherwydd bydd yn cyhoeddi heddwch i'w bobl ac i'w ffyddloniaid rhag iddynt droi drachefn at ffolineb.

Yn wir, y mae ei waredigaeth yn agos at y rhai sy'n ei ofni :
fel bod gogoniant yn aros yn ein tir.

Bydd cariad a gwirionedd yn cyfarfod :
a chyfiawnder a heddwch yn cusanu ei gilydd.

Bydd ffyddlondeb yn tarddu o'r ddaear :
a chyfiawnder yn edrych i lawr o'r nefoedd.

Bydd yr Arglwydd yn rhoi daioni :
a'n tir yn rhoi ei gnwd.

Bydd cyfiawnder yn mynd o'i flaen :
a heddwch yn dilyn yn ôl ei droed.

Salm 85. 8-13

Siant: Thomas Norris (1741-90)

THE FIRST READING

Read by Huw Irranca-Davies MS, Llywydd of the Senedd.

'With what shall I come before the Lord,
and bow myself before God on high?
Shall I come before him with burnt-offerings,
with calves a year old?
Will the Lord be pleased with thousands of rams,
with tens of thousands of rivers of oil?
Shall I give my firstborn for my transgression,
the fruit of my body for the sin of my soul?'
He has told you, O mortal, what is good;
and what does the Lord require of you
but to do justice, and to love kindness,
and to walk humbly with your God?

Micah 6. 6-8

This is the word of the Lord.

All **Thanks be to God.**

THE PSALM

The Cathedral Choir sings the Psalm:

I will listen to what the Lord God will say :
for he shall speak peace to his people and to the faithful, that they turn not again to folly.

Truly, his salvation is near to those who fear him :
that his glory may dwell in our land.

Mercy and truth are met together :
righteousness and peace have kissed each other;

Truth shall spring up from the earth :
and righteousness look down from heaven.

The Lord will indeed give all that is good :
and our land will yield its increase.

Righteousness shall go before him :
and direct his steps in the way.

Psalm 85. 8-13

Chant: Thomas Norris (1741-90)

Read by Sam Rowlands AS. Cadeirydd Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Ffydd:

Yna daeth mam meibion Sebedeus ato gyda'i meibion, gan ymgrymu a gofyn ffafr ganddo. Meddai ef wrthi, "Beth a fynni?" Atebodd, "Gorchymyn fod i'm dau fab hyn gael eistedd, un ar dy law dde ac un ar dy law chwith yn dy deyrnas." Atebodd Iesu, "Ni wyddoch beth yr ydych yn ei ofyn. A allwch chwi yfed y cwpan yr wyf fi i'w yfed?" "Gallwn," meddent. Dywedodd wrthynt, "Cewch yfed fy nghwpan i, ond eistedd ar fy llaw dde ac ar fy llaw chwith, nid gennyf fi y mae'r hawl i roi hynny; y mae'n perthyn i'r rhai y mae wedi ei ddarparu ar eu cyfer gan fy Nhad."

Pan glywodd y deg, aethant yn ddig wrth y ddau frawd. Galwodd Iesu hwy ato ac meddai, "Gwyddoch fod llywodraethwyr y Cenhedloedd yn arglwyddiaethu arnynt, a'u gwŷr mawr yn dangos eu hawdurdod drostynt. Ond nid felly y mae i fod yn eich plith chwi; yn hytrach, pwy bynnag sydd am fod yn fawr yn eich plith, rhaid iddo fod yn was i chwi, a phwy bynnag sydd am fod yn flaenaf yn eich plith, rhaid iddo fod yn gaethwas i chwi, fel Mab y Dyn, na ddaeth i gael ei wasanaethu ond i wasanaethu, ac i roi ei einioes yn bridwerth dros lawer."

Mathew 20. 20-28

Dyma air yr Arglwydd.

Pawb **Diolch a fo i Dduw.**

THE SECOND READING

Read by Sam Rowlands MS, Chair of the Senedd's Cross-Party Group on Faith:

Then the mother of the sons of Zebedee came to him with her sons, and kneeling before him, she asked a favour of him. And he said to her, 'What do you want?' She said to him, 'Declare that these two sons of mine will sit, one at your right hand and one at your left, in your kingdom.' But Jesus answered, 'You do not know what you are asking. Are you able to drink the cup that I am about to drink?' They said to him, 'We are able.' He said to them, 'You will indeed drink my cup, but to sit at my right hand and at my left, this is not mine to grant, but it is for those for whom it has been prepared by my Father.'

When the ten heard it, they were angry with the two brothers. But Jesus called them to him and said, 'You know that the rulers of the Gentiles lord it over them, and their great ones are tyrants over them. It will not be so among you; but whoever wishes to be great among you must be your servant, and whoever wishes to be first among you must be your slave; just as the Son of Man came not to be served but to serve, and to give his life a ransom for many.'

Matthew 20. 20-28

This is the word of the Lord.

All **Thanks be to God.**

ANTHEM

Mae Côr yr Eglwys Gadeiriol yn canu:

Bloeddiwch mewn gorfoledd i'r Arglwydd, yr holl ddaear :
addolwch yr Arglwydd mewn llawenydd, dewch o'i flaen â chân.

Gwybyddwch mai'r Arglwydd sydd Dduw; ef a'n gwnaeth,
a'i eiddo ef ydym :
ei bobl a defaid ei borfa.

Dewch i mewn i'w byrth â diolch ac i'w gynteddau â mawl :
diolchwch iddo, bendithiwch ei enw.

Oherwydd da yw'r Arglwydd; y mae ei gariad hyd byth :
a'i ffyddlondeb hyd genhedlaeth a chenhedlaeth.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab:
ac i'r Ysbryd Glân;

Megis yr oedd yn y dechrau, y mae'r awr hon, ac y bydd yn wastad:
yn oes oesoedd. Amen.

Jubilate Deo (Salm 100) Cerddoriaeth: Philip Stopford (g. 1977)

BENDITH Y SENEDD

Mae'r Senedd newydd yn cael ei bendithio gan arweinwyr eciwmenaidd a chynrychiolwyr cymunedau ffydd yng Nghymru.

ANTHEM

The Cathedral Choir sings:

O BE JOYFUL in the Lord, all ye lands :
serve the Lord with gladness, and come before his presence with a song.

Be ye sure that the Lord he is God :
it is he that hath made us, and not we ourselves;
we are his people, and the sheep of his pasture.

O go your way into his gates with thanksgiving, and into his courts with praise :
be thankful unto him, and speak good of his Name.

For the Lord is gracious, his mercy is everlasting :
and his truth endureth from generation to generation.

Glory be to the Father, and to the Son :
and to the Holy Ghost;

As it was in the beginning, is now, and ever shall be :
world without end. Amen.

Jubilate Deo (Psalm 100) Music: Philip Stopford (b. 1977)

BLESSING OF THE SENEDD

The new Parliament is blessed by ecumenical leaders and representatives of faith communities in Wales.

EMYN



1. Dyma ddydd dechreuad newydd:
Saif ein gwlad gerbron y byd
Cym'rwn feddiant o'n dyfodol
Rhagom awn yn deulu 'nghyd.
Heriwn genedlaethau newydd
I ymroi i'r fenter hon
O greu seiliau cadarn heddiw
A rhoi balchder dan ein bron.

2. Felly, dygwn ein gobeithion
At ein Duw, sy'n ffordd i ni:
Ceisiwn ganddo ysbrydoliaeth
I droi Cymru'n deulu cry'.
Ceisiwn ganddo ein cymodi
Pan mae cecru'n cuddio'r gwir;
Ceisiwn ganddo'r bywyd cyflawn
A rydd ffyniant drwy ein tir.

3. Boed i bair y bobloedd heddiw
Danio'r hiliau'n deulu mawr;
Boed cyfiawnder ym mhob perthyn;
Boed i gariad ddod i'w awr:
Cariad sy'n rhoi croeso a chysgod,
Cariad sydd yn nerthu'r gwan,
Cariad sydd yn rhannu cyfoeth
A chaledi ym mhob man.

4. Arglwydd, dyro olwg newydd
Ar orffennol hir ein gwlad,
Lle mae creigiau a mynyddoedd
Yn troi'n llwch rydd faeth i'r had.
Pan fo'n gwendid yn ein trechu,
Codwn leisiau oll ynghyd,
Am gael blasu mawredd d'Ysbryd
Ac ymroi i'n galwad ddrud.

Geiriau: Alan Luff (1928-2020)
Ysgrifennwyd ar gyfer gwasanaeth 1999 i ddathlu agoriad Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Cerddoriaeth: HYFRYDOL
Melodi gan Richard Huw Pritchard (1811-87)
Wedi'i harmoneiddio gan lunwyr yr English Hymnal (1906)

Please stand:

HYMN



All

1. **On a day of new beginnings**
Wales before the world now stands,
takes her future as a nation
firmly into her own hands,
challenging her sons and daughters
to a venture yet untried,
in our day to lay foundations
worthy of her people's pride.

2. **So we bring our hopes and longings**
to our God who is the way;
seek from him our inspiration
for decisions day by day;
seek for reconciliation
when the truth is veiled by strife
seek to find, both for our neighbour,
and ourselves, abundant life.

3. **May this crucible of peoples**
fire a higher thought than race;
justice, shown in all our dealings,
love that shows a human face:
love that welcomes, love that shelters,
love that can sustain the weak,
love that shares both wealth and hardship
in whatever tongue we speak.

4. **May we find a true perspective**
in the backdrop of our land,
where the ancient rocks and mountains
in their turn are worn to sand;
in our individual weakness,
we must now together ask
for that greatness of the spirit
that will match our humbling task.

Words: Alan Luff (1928-2020)
Written for the 1999 service celebrating
the Opening of the National Assembly for Wales

Music: HYFRYDOL
Melody by Richard Huw Pritchard (1811-87)
Harmonised by the compilers of the English Hymnal (1906)

Y BREGETH

Y Parchedicaf Cherry Vann, Archesgob Cymru.

Y WEITHRED O GYFLWYNO

Bydd y Gwir Barchedig Mary Stallard, Esgob Llandaf, yn dweud:

Yn enw Duw, y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân:
Galwn am fendith Duw Hollalluog ar y Senedd.

Pawb **Gogoniant i Dduw yn y goruchaf.**

Bydd y Gwir Barchedig Mark O'Toole, Archesgob Caerdydd-Mynyw, yn dweud:

Boed i garedigrwydd a chwrteisi gyd-fynd â'ch gweithredoedd,
uniondeb a thegwch yn nodweddion eich gwasanaeth,
a chydweithio hapus yn nodi eich gwaith dros Gymru.

Pawb **Gogoniant i Dduw yn y goruchaf.**

Bydd y Gwir Barchedig Dorrien Davies, Deon Caplaniaeth Frenhinol Cymru, yn dweud:

Boed i Dduw roi boddhad i chi yn eich dyletswyddau,
ac iechyd a chyfle i wasanaethu'r lles cyffredin,
er ei ogoniant tragwyddol.

Pawb **Gogoniant i Dduw yn y goruchaf.**

ANTHEM

Mae Côr yr Eglwys Gadeiriol yn canu:

Cyfraith yr Arglwydd sydd berffaith, yn troi yr enaid :
tystiolaeth yr Arglwydd sydd sicr, ac yn gwneuthur y gwirion yn ddoeth.

Deddfau yr Arglwydd sydd uniawn, yn llawenhau y galon : gorchymyn yr Arglwydd sydd bur, yn goleuo'r llygaid.
Salm 19: 7, 8

Cerddoriaeth: William Mathias (1934-92)

THE SERMON

The Most Reverend Cherry Vann, Archbishop of Wales.

THE ACT OF COMMENDATION

The Right Reverend Mary Stallard, Bishop of Llandaff, will say:

In the name of God, Father Son and Holy Spirit:
We invoke the blessing of Almighty God upon the Senedd.

All **Glory to God in the highest.**

The Most Reverend Mark O'Toole, Archbishop of Cardiff-Menevia, will say:

May kindness and courtesy accompany your doings,
integrity and fairness be hallmarks of your service,
and happy cooperations signal your work for Wales.

All **Glory to God in the highest.**

The Right Reverend Dorrien Davies, Dean of the Royal Chaplaincy for Wales, will say:

God grant you satisfaction in your duties,
and health and opportunity to serve the common good,
to his eternal glory.

All **Glory to God in the highest.**

ANTHEM

The Cathedral Choir sings:

THE LAW OF THE LORD is an undefiled law, converting the soul :
the testimony of the Lord is sure, and giveth wisdom unto the simple.

The statutes of the Lord are right, and rejoice the heart :
the commandment of the Lord is pure, and giveth light unto the eyes.

Psalm 19: 7, 8

Music: William Mathias (1934-92)



1. Arglwydd, arwain drwy'r anialwch
fi, bererin gwael ei wedd,
nad oes ynof nerth na bywyd,
fel yn gorwedd yn y bedd:
hollalluog, hollalluog,
ydyw'r Un a'm cwyd i'r lan.

Pawb 2. **Agor y ffynhonnau melys**
sydd yn tarddu o'r graig i maes;
'r hyd yr anial mawr canlyned
afon iachawdwriaeth gras;
rho im hynny, rho im hynny:
dim i mi ond dy fwynhau.

3. Pan yn troedio glan Iorddonen
par i'm hofnau suddo i gyd,
dwg fi drwy y tonnau geirwon,
draw i Ganaan – gartref clyd:
mawl diderfyn, mawl diderfyn,
fydd i'th enw byth am hyn.

Geiriau: William Williams (1717-1791)

Cerddoriaeth: CWM RHONDDA
John Hughes (1873-1932)

Please stand:

HYMN



All

1. **Guide me, O thou great Redeemer,**
pilgrim through this barren land;
I am weak, but thou art mighty,
hold me with thy powerful hand:
bread of heaven, bread of heaven
feed me till I want no more.

2. Open now the crystal fountain
whence the healing stream doth flow;
let the fire and cloudy pillar
lead me all my journey through:
strong deliverer,
be thou still my strength and shield.

3. **When I tread the verge of Jordan**
bid my anxious fears subside;
death of death, and hell's destruction,
land me safe on Canaan's side:
songs of praises
I will ever give to thee.

Words: William Williams (1717-1791)
Translated by Peter Williams (1727-1796)
and others

Music: CWM RHONDDA
John Hughes (1873-1932)

THE DISMISSAL

Parhewch i sefyll. Mae Archesgob Cymru yn rhoi'r fendith:

The Lord bless you and keep you;
The Lord make his face to shine upon and be gracious unto you:
The Lord lift up his countenance upon you, and give you peace;
Now and always.

Pawb **Amen.**

THE NATIONAL ANTHEMS

Pawb **Mae hen wlad fy Nhadau**
Yn annwyl i mi,
Gwlad beirdd a chantorion
Enwogion o fri;
Ei gwrol ryfelwyr
Gwladgarwyr tra mâd
Dros ryddid collasant eu gwaed:

Gwlad, Gwlad, pleidiol wyf i'm gwlad
Tra'r môr yn fur i'r bur hoff bau
O bydded i'r hen iaith barhau.

Geiriau: Evan James (1809-78) Cerddoriaeth: James James (1832-1902)

God save our gracious King!
Long live our noble King!
God save the King!
Send him victorious,
happy and glorious,
Long to reign over us,
God save the King!

Geiriau a cherddoriaeth a boblogeiddiwyd gan Thomas Arne (1710-78)

CERDDORIAETH AR ÔL Y GWASANAETH

Mae'r Cyfarwyddwr Cerdd Cynorthwyol yn chwarae:

Arhoswch ar eich traed wrth i'r orymdaith ymadael. Ar ôl yr orymdaith, arhoswch yn eich lleoedd nes i'r stiwardiaid roi cyfarwyddyd i chi.

Cynhelir derbyniad yng Nghapel Mair, ym mhen dwyreiniol yr Eglwys Gadeiriol.

THE DISMISSAL

Please remain standing. The Archbishop of Wales gives the blessing:

The Lord bless you and keep you;
The Lord make his face to shine upon and be gracious unto you:
The Lord lift up his countenance upon you, and give you peace;
Now and always.

All **Amen.**

THE NATIONAL ANTHEMS

Mae hen wlad fy Nhadau
Yn annwyl i mi,
Gwlad beirdd a chantorion
Enwogion o fri;
Ei gwrol ryfelwyr
Gwladgarwyr tra mâd
Dros ryddid collasant eu gwaed:

Gwlad, Gwlad, pleidiol wyf i'm gwlad
Tra'r môr yn fur i'r bur hoff bau
O bydded i'r hen iaith barhau.

Words: Evan James (1809-78) Music: James James (1832-1902)

All **God save our gracious King!**
Long live our noble King!
God save the King!
Send him victorious,
happy and glorious,
Long to reign over us,
God save the King!

Words and Music popularised by Thomas Arne (1710-78)

MUSIC AFTER THE SERVICE

The Assistant Director of Music plays:

Please remain standing as the procession departs. Following the procession, please remain in your places until directed by the stewards.

A reception will take place in the Lady Chapel, at the East End of the Cathedral.

CÔR MERCHED PLASTAF

Arweinydd: Caryl Ebenezer
Cyfeilydd: Lowri Guy

Mae Côr Merched Plastaf wedi sefydlu ei hun fel un o gorau ieuenctid mwyaf blaenllaw Cymru, gan ddod â chantorion talentog o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg Caerdydd ynghyd o dan arweiniad Caryl Ebenezer.

Yn adnabyddus am ei sain gyfoethog, gynnes a chytbwys, rhyddhaodd y côr ei albwm cyntaf ar label Sain yn 2025. Mae'r côr yn perfformio repertoire eang sy'n ymestyn o gerddoriaeth draddodiadol Gymreig i weithiau clasurol a chyfoes, ac mae comisiynu a hyrwyddo cerddoriaeth Gymreig newydd yn flaenoriaeth iddynt.

Mae'r côr wedi ennill llu o wobrau mewn gwyliau a chystadlaethau ar hyd a lled Cymru, gan gynnwys Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen, Eisteddfod yr Urdd ac Eisteddfod Genedlaethol Cymru, gan gipio dwy wobr gyntaf eleni yng nghystadlaethau'r Côr Ieuenctid a'r Côr Merched yn Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las.

Mae'r côr hefyd yn parhau i adeiladu ar ei lwyddiant rhyngwladol yn dilyn ei daith gyntaf dramor i Rufain yn 2023. Ym mis Ebrill 2026, enillodd y côr y Grand Prix, sef prif wobr gorawl Gŵyl Gorawl Golden Voices of Montserrat yng Nghatalwnia - y côr cyntaf o Gymru i ennill y wobr a sicrhau marciau llawn gan y beirniaid.

Mae Côr Merched Plastaf yn parhau i rannu ei angerdd at gerddoriaeth, ei dreftadaeth a'i sain unigryw gyda chynulleidfaoedd yng Nghymru a thu hwnt.

CÔR MERCHED PLASTAF

Conductor: Caryl Ebenezer
Accompanist: Lowri Guy

Côr Merched Plastaf has established itself as one of Wales's leading youth choirs, bringing together talented singers from Cardiff's Welsh-medium secondary schools under the direction of Caryl Ebenezer.

Known for its rich, warm and balanced sound, the choir released its debut album on the Sain label in 2025. Its repertoire spans a wide range of music, from traditional Welsh music to classical and contemporary works, with commissioning and championing new Welsh music and arrangements a particular priority.

The choir has won numerous awards at festivals and competitions across Wales, including the Llangollen International Musical Eisteddfod, the Urdd National Eisteddfod and the National Eisteddfod of Wales. This year, the choir took first prize in both the Youth Choir and Female Choir competitions at the National Eisteddfod.

The choir is also building on its international success following its first overseas tour to Rome in 2023. In April 2026, the choir won the Grand Prix, the principal choral award at the Golden Voices of Montserrat Choral Festival in Catalunya, achieving full marks from the judges and becoming the first choir from Wales to win the award.

Côr Merched Plastaf continue to share its passion for music, its heritage and its distinctive sound with audiences in Wales and beyond.

MARED EMYR PUGH-EVANS

Telynores Swyddogol Ei Fawrhydi Y Brenin

Mae Mared Emyr Pugh-Evans yn delynores sydd wedi ennill gwobrau rhyngwladol ac sy'n dod o'r Borth, yng nghanolbarth-orllewin Cymru. Enillodd ei gradd MA (Perfformio) o'r Royal Academy of Music yn 2022, lle bu'n astudio o dan arweiniad Karen Vaughan. Hefyd, llwyddodd i ennill ei chymhwyster LRAM yn ystod ei blwyddyn olaf a derbyniodd dystysgrif DipRAM am ei pherfformiad terfynol.

Graddiodd o Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (RWCMD), Caerdydd, yn 2020 gyda gradd Baglor mewn Cerddoriaeth (Anrhydedd) Dosbarth Cyntaf; yn ogystal, enillodd dystysgrif DipABRSM (Addysgu Offerynnol) a dyfarnwyd Gwobr Royal Welch Fusiliers RWCMD 2020 ac Ysgoloriaeth Florence Mary Proctor iddi. Mae Mared yn falch iawn o fod wedi cael ei phenodi'n Delynores i'w Ei Fawrhydi Y Brenin yn haf 2024, gyda'i hymrwymiad swyddogol cyntaf yn digwydd ychydig wythnosau'n ddiweddarach i ddathlu 25 mlynedd ers sefydlu'r Senedd yng Nghaerdydd.

Mae Mared yn perfformio'n rheolaidd ar lwyfannau cenedlaethol a rhyngwladol ac wedi ennill nifer o wobrau am ei chwarae, gan gynnwys:

2022: Enillydd y Rhuban Glas Offerynnol yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru (ar gyfer cystadleuwyr 19 oed a hŷn)

2022: Enillydd Gwobr Skaila Kanga

2022: 6ed safle yng nghystadleuaeth HarpMasters Prize yng Nghystadleuaeth Delyn Ryngwladol UDA, Bloomington, Indiana, UDA

2021: Enillydd Gwobr Syr Ian Stoutzker i'r Cerddor Mwyaf Rhagorol, RWCMD

2020: Ffeinalydd yng Nghystadleuaeth Concerto RWCMD

Hoffai Mared ddiolch i'r canlynol am eu cefnogaeth hael: Sefydliad James Pantyfedwen; Help Musicians; Cronfa Goffa Ryan Davies ac Ysgoloriaeth Addysgol Dr Daniel Williams. Diolch o galon.

MARED EMYR PUGH-EVANS

Official Harpist to His Majesty The King

Mared Emyr Pugh-Evans is an international prize-winning harpist from Borth, in mid-west Wales. She gained her MA (Performance) degree from the Royal Academy of Music in 2022, where she studied under Karen Vaughan. She also achieved her LRAM whilst studying for her final year and received a DipRAM certificate for her Final Performance.

She graduated from the Royal Welsh College of Music and Drama, Cardiff in 2020 with a First Class (Honours) Bachelor of Music degree and also achieved her DipABRSM (Instrumental Teaching) certificate and was awarded the 2020 RWCMD Royal Welch Fusiliers Award and the Florence Mary Proctor Scholarship. Mared is honoured to have been appointed Harpist to His Majesty The King in the Summer of 2024, with her first official engagement happening a few weeks later celebrating 25 years of Y Senedd in Cardiff.

A regular recitalist on both the national and international stage, Mared has won numerous awards for her playing, including:

2022: Winner National Eisteddfod of Wales Instrumental Blue Riband winner 19 years and over

2022: Winner of the Skaila Kanga Prize

2022: 6th Place HarpMasters Prize Winner USA International Harp Competition, Bloomington, Indiana, USA

2021: Winner of the Sir Ian Stoutzker Prize for the most Outstanding Musician, RWCMD

2020: Finalist RWCMD Concerto Competition

Mared would like to thank the following for their generous support: James Pantyfedwen Foundation; Help Musicians; Cronfa Goffa Ryan Davies and the Dr Daniel Williams' Educational Fund. Diolch o galon.

CÔR CADEIRLAN LLANDAF

Cyfarwyddwr Cerdd: Stephen Moore Cyfarwyddwr Cerdd Cynorthwyol: Aaron Shilson

Mae Adran Gerdd Eglwys Gadeiriol Llandaf yn rhan brysur a ffyniannus o fywyd yr Eglwys Gadeiriol, gyda saith gwasanaeth corawl mewn wythnos arferol ac amrywiaeth eang o gorau gweithgar. Dechreuodd ffurf bresennol Corau'r Eglwys Gadeiriol ym 1880, pan sefydlodd Deon Llandaf, Charles Vaughan, Ysgol yr Eglwys Gadeiriol i addysgu'r Bechgyn Corawl. Sefydlwyd y Merched Corawl gan Ysgol yr Eglwys Gadeiriol ym 1996 ac, tan 2021, roedd ganddynt eu cyfarwyddwr eu hunain, a oedd yn aelod o staff yr ysgol.

Mewn datblygiad hanesyddol, croesawyd y merched yn ffurfiol i Adran Gerdd yr Eglwys Gadeiriol yn 2021 ac, o fis Medi 2022 ymlaen, sefydlwyd cyfle cyfartal llawn i ferched a bechgyn oedd yn dymuno dod yn gantorion yn Llandaf. O dan y trefniadau hyn, mae cantorion yn canu mewn hyd at bedwar gwasanaeth bob wythnos, yn ogystal ag ar achlysuron esgobaethol a chenedlaethol. Yn nodedig iawn, ym mis Medi 2022, canasant mewn gwasanaeth a fynychwyd gan Ei Fawrhydi y Brenin Siarl III a'r Frenhines Camilla, a ddarlledwyd yn fyw ledled y byd.

Yn ogystal â'u dyletswyddau yn yr Eglwys Gadeiriol, mae'r côr yn cynnal rhaglen fywiog ac amrywiol o weithgareddau cyfoethogi. Yn 2022, daeth y merched a'r bechgyn ynghyd am y tro cyntaf i recordio A Year at Llandaff, CD sy'n olrhain blwyddyn yr Eglwys trwy gerddoriaeth gorawl ac organ. Ym mis Chwefror 2025, recordiasant ail ddisg o gerddoriaeth ar gyfer yr Adfent a'r Nadolig, a ryddhawyd yn ddiweddarach y flwyddyn honno. Mae'r côr hefyd wedi ymgymryd â nifer o deithiau hynod lwyddiannus, gan gynnwys ymweliad â Chaergrawnt a'r ardal gyfagos ym mis Hydref 2022, a thaith gyngerdd yng Ngwlad Belg ym mis Hydref 2023, lle canasant yn Seremoni'r 'Last Post' ym Mhorth Menin yn Ypres. Ym mis Hydref 2025, ymgymrodd y côr â chyfnod preswyl yn Llundain, gan ganu yn Eglwys Gadeiriol St Paul a Chapel St George, Windsor, ymhlith lleoliadau eraill. Mae ymddangosiadau darlledu diweddar wedi cynnwys Songs of Praise ar Ddydd y Pasg 2021 a Dydd Nadolig 2022, BBC Radio 4 ym mis Hydref 2024, a Choral Evensong ar BBC Radio 3 ym mis Medi 2023 a mis Rhagfyr 2024.

Yn ogystal â Chôr yr Eglwys Gadeiriol, mae'r Adran Gerdd hefyd yn cynnwys Majestas Kids ar gyfer plant rhwng 8 ac 13 oed, a Majestas Consort, côr siambr trwy glyweliad. Mae Côr Gŵyl Eglwys Gadeiriol Llandaf – côr cymunedol o tua 100 o aelodau – yn perfformio bob mis Gorffennaf fel rhan o Ŵyl Llandaf. Mae'r adran hefyd yn cynnal rhaglen allgymorth helaeth mewn ysgolion yn yr esgobaeth, gan gyrraedd mwy na 1,000 o blant bob blwyddyn.

THE CHOIR OF LLANDAFF CATHEDRAL

Director of Music: Stephen Moore
Assistant Director of Music: Aaron Shilson

The Music Department of Llandaff Cathedral is a busy and thriving part of Cathedral life, with seven choral services in a typical week and a wide range of active choirs. The present incarnation of the Cathedral Choirs began in 1880, when Dean of Llandaff, Charles Vaughan, founded the Cathedral School to educate the Boy Choristers. The Girl Choristers were established by the Cathedral School in 1996 and, until 2021, had their own director, who was a member of staff there.

In a historic development, the girls were formally welcomed into the Cathedral Music Department in 2021 and, from September 2022, full parity of opportunity was established for girls and boys wishing to become choristers at Llandaff. Under these arrangements, choristers sing up to four services each week, as well as at diocesan and national occasions. Most notably, in September 2022 they sang at a service attended by HM King Charles III and Queen Camilla, which was broadcast live around the world.

Alongside their Cathedral duties, the choir maintains a lively and varied programme of enrichment activities. In 2022, the girls and boys joined together for the first time to record A Year at Llandaff, a CD tracing the Church year through choral and organ music. In February 2025, they recorded a second disc of music for Advent and Christmas, released later that year. The choir has also undertaken several highly successful tours, including a visit to Cambridge and the surrounding area in October 2022, and a concert tour of Belgium in October 2023, during which they sang at the Last Post Ceremony at the Menin Gate in Ypres. In October 2025, the choir undertook a London residency, singing at St Paul's Cathedral and St George's Chapel, Windsor, among other venues.

Recent broadcast appearances have included Songs of Praise on Easter Day 2021 and Christmas Day 2022, BBC Radio 4 in October 2024, and BBC Radio 3 Choral Evensong in September 2023 and December 2024.

Alongside the Cathedral Choir, the Music Department also includes Majestas Kids for children aged 8–13, and Majestas Consort, an auditioned chamber choir. The Llandaff Cathedral Festival Chorus, a community choir of around 100 members, performs each July as part of the Llandaff Festival. The department also runs an extensive outreach programme in diocesan schools, reaching more than 1,000 children each year.

Cydnabyddiaeth Hawlfraint

Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig hawlfraint © Cymdeithas y Beibl 2004 © Cymdeithas Feiblaidd Prydain a Thramor 2004

Beibl Fersiwn Safonol Newydd Diwygiedig: Argraffiad Seisnigedig, hawlfraint © 1989, 1995 Adran Addysg Gristnogol Cyngor Cenedlaethol Eglwysi Crist yn Unol Daleithiau America. Defnyddir gyda chaniatâd.
Cedwir pob hawl.

Atgynhyrchir emynau o dan rif trwydded
CCLI 829936

© Cadeirlan Llandaf 2026

Copyright Acknowledgements

Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig copyright © Cymdeithas y Beibl 2004 © British and Foreign Bible Society 2004

New Revised Standard Version Bible: Anglicised Edition, copyright © 1989, 1995 the Division of Christian Education of the National Council of the Churches of Christ in the United States of America. Used by permission. All rights reserved.

Hymns are reproduced under
CCLI licence number 829936

© Llandaff Cathedral 2026

Cytûn
Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Churches Together in Wales

CADEIRLAN
LLANDAF
CATHEDRAL